Nos Sadwrn erstalwm

Caru cofion castell ‘Arfon
Cofio Cofis cerdded gwmpas Dre
Rownd ac rownd y sgwar
Fel y ffermwyr yn Cae Sale
Llygaid judgio siap ac seis
Cyn pocio pinshio i gymharu
Ond spio am fodins dim am ddefaid
Roedd y cofis pob nos Sadwrn
Dim geneth yn dal fy llygaid
Gwir, dim fodan  yn fy eisio
Dim hogan i gisannu
Dim ond Woodbine ar fy ngwefys
Ifan Ganwyll am ice cream
Bwyta tatws  lapio  yn y C & D ( Caernarfon & Denbigh)
Wrth cerdded gwmpas cloddia’r  dre
Noson dawel ia yn wir
Cyfarth clychau Guildhall deg or gloch
Dal Crosville dwytha am y bro
Fina cerdded adre ir hen Stryd
Dim lwc checio’r football pools
Mynd ir gwely cadw gynnes
Codi gynnar bore Sul
Twb yr wythnos yn fy ngalw
Penyglinniau sglinio unwaith eto
Capel Seilo yn fy nisgwyl
Lle roedd nhad yn codi canub
Doh,ray,mee ac I ffwrdd a fi
I grwydro unwaith eto…. gwmpas Dre

Alwyn Parry
taffy.nz@xtra.co.nz